# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG**

Dyddiad ac Amser

**5.30 y.h., DYDD MERCHER, 10FED MAWRTH, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD 2/03/21)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

| | |
|---|---|
| E. Selwyn Griffiths | Aelod Lleol |
| Alwyn Gruffydd | Aelod Lleol |
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Lleol |

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Llywelyn Rhys | Porthmadog Town Council Representative |
| I'w gadarnhau | Cynrychioli Buddiannau Perchenogion Tir |
| David Eastwood | Cynrychioli Buddiannau Harbwr |
| Dr John Jones-Morris | Cynrychioli Buddiannau Hamdden |
| Ian Roberts | Cynrychioli Buddiannau Diwydiannol |
| Robert Owen | Cynrychioli Buddiannau Masnachol |
| Will Walker-Jones | Cynrychioli Sefydiad y Bad Achub Cricieth |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |
| David Williams | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
| Cynghorydd Rob Triggs | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw |
| Peter Read | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |

# RHAGLEN

**1. CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd ar gyfer 2020/21.

**2. IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2020/21.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd.

**6. COFNODION** 4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Mawrth, 2020 fel rhai cywir.

**7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLI'R HARBWR** 8 - 18

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau.

**8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog ar 5 Hydref, 2021, yn ddarostyngedig i'w gadarnhau gan y Cyngor Llawn.

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG DYDD MERCHER, 11 MAWRTH 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd) (Is-gadeirydd)

Y Cynghorydd Selwyn Griffiths (Cyngor Gwynedd), Y Cynghorydd Llywelyn Rhys (Cynrychiolydd Cyngor Tref Porthmadog), David Eastwood (Cynrychiolydd Buddiannau Harbwr), Dr John Jones-Morris (Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden), Robert Owen (Cynrychiolydd Buddiannau Masnachol) a Will Walker Jones (Cynrychiolydd Sefydliad y Bâd Achub Cricieth).

**SYLWEDYDD:** Y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Datblygu'r Economi, Cyngor Gwynedd).

**HEFYD YN BRESENNOL:** Barry Davies (Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig), Arthur Francis Jones (Uwch Swyddog Harbyrau), Malcolm Humphreys (Harbwrfeistr Porthmadog) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Cyfeiriodd y Cadeirydd ar farwolaeth ddiweddar Brian Rees Jones, fu'n amlwg yn sefydlu Clwb Hwylio Madog ac yn allweddol o ran sicrhau pryniant yr harbwr gan gyn-gyngor Dosbarth Dwyfor. Cytunwyd i anfon llythyr at y teulu yn mynegi cydymdeimlad llwyraf yr aelodau â hwy yn eu profedigaeth.

## 1. YMDDIHEURIADAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9 Hydref, 2019, fel rhai cywir, yn amodol ar gywiro'r cyfeiriadau at '*Porthmadog Sailing Club'* yn y fersiwn Saesneg i ddarllen '*Madoc Yacht Club'*.

## 4. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

Cyflwynwyd yr adroddiadau isod a gwahoddwyd adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr harbwr.

- Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau yn diweddaru'r pwyllgor ar faterion yr Harbwr ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 2019 a mis Mawrth 2020.
- Adroddiad yr Harbwrfeistr yn crynhoi'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Hydref 2019 a mis Mawrth, 2020, gan gynnwys materion cynnal a chadw.

Dosbarthwyd:-

- Manylion ffioedd a thaliadau Harbwr Porthmadog ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2020 ac Ebrill 2021, ynghyd â'r ffioedd lansio ar gyfer cychod pŵer a chychod personol ar gyfer yr un cyfnod.
- Llythyr Tŷ'r Drindod dyddiedig 10 Hydref 2019, yn sgil eu harchwiliad blynyddol o gymorthyddion mordwyo yn yr Harbwr a dynesfa'r sianel rhwng 14 ac 16 Hydref, 2019. Nododd y Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig fod y rhan fwyaf o'r gwaith oedd angen sylw wedi'i gwblhau bellach, ond gofynnodd i'r aelodau roi gwybod pe byddent yn sylwi bod bwiau wedi symud o'u lleoliad cywir.

Cyfeiriodd y Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig at y tywydd garw diweddar gan nodi y bu'n anarferol iawn gweld cymaint o stormydd yn cyrraedd un ar ôl y llall mewn cyfnod mor fyr. Yn ffodus iawn, roedd cyfeiriad y gwynt wedi bod yn ffafriol y tro hwn, ac ni chafwyd unrhyw ddifrod yn yr Harbwr, ac eithrio bod ychydig o flociau wedi'u codi a rhai bwiau wedi'u symud. Roedd staff y gwasanaeth wedi bod ar alwad, yn gwneud yn siŵr bod popeth yn iawn, a diolchwyd iddynt am eu hymrwymiad y tu hwnt i'w swyddi.

Gofynnwyd pa mor bryderus oedd y gwasanaeth ar adeg y stormydd diweddar. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig fod y ffaith bod y gwynt cryfaf wedi taro ar benllanw uchel wedi bod yn fater o bryder, ond y byddai'r sefyllfa wedi bod yn llawer gwaeth petai cyfeiriad y gwynt wedi bod yn llai ffafriol i Borthmadog. Cadarnhawyd nad oedd yna unrhyw beth penodol y gallai'r pwyllgor wneud am y sefyllfa, ac eithrio gadael i'r swyddogion wybod os oeddent yn pryderu am unrhyw beth, a phwysleisiwyd bod y digwyddiadau tywydd eithriadol hyn yn amlygu bod dyletswydd ar bawb i warchod yr amgylchedd.

Adroddodd y Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig ymhellach:-

- Iddo gael trafodaeth gyda Chyngor Tref Cricieth yn sgil eu cais i'r Cyngor ystyried dulliau amgen o gadw rheolaeth ar gychod pŵer yn dilyn digwyddiad. Roedd rhwystredigaeth y Cyngor Tref yn ddealladwy, ond roedd y Cyngor Tref hefyd yn deall pa mor gyfyngedig oedd pwerau'r Cyngor. Rhoddwyd addewid y byddai'r gwasanaeth yn cryfhau eu goruchwyliaeth ac yn ceisio gwella'r cymorthyddion mordwyo yn y bae. Derbynnid hefyd bod yna fusnesau yn ddibynnol ar y cychod ac roedd y swyddog yn falch o'r cyfle i drafod y mater gyda'r Cyngor Tref.
- Na dderbyniwyd unrhyw fater diogelu harbwr gan unrhyw aelod dros y 6 mis diwethaf. Gofynnwyd i'r aelodau gysylltu pe dymunent gopi o'r cod, gan hefyd roi gwybod pe byddai ganddynt fater i'w godi.
- Bod y crynodeb o'r cyllidebau'n amlygu effaith y lleihad yn y gofyn (i ddod â chychod i mewn i'r harbwr / rhoi cychod ar angorfa) ar yr incwm. O'r targed incwm am y flwyddyn o £73,000, £60,000 yn unig oedd wedi'i dderbyn hyd yma, ac nid oedd yna lawer o botensial i wneud rhagor o incwm dros y mis nesaf. Golygai hynny orfod gwneud arbediad o £13,000 i gwrdd â'r diffyg, a gan na ddymunid torri ar y ffactorau oedd yn effeithio ar ddiogelwch yr harbwr, bwriedid edrych ar y gyllideb harbyrau yn ei chyfanrwydd er mwyn oedd yna lefydd yn gwneud yn well na'r disgwyl, neu feysydd oedd yn tanwario. Rhagwelid gorwariant o tua £10,000 erbyn diwedd y flwyddyn o gymharu â'r targed o £13,000. Byddai'n dda gostwng y ffigur i £0 fel bod y gwasanaeth yn talu am ei hun. Nodwyd hefyd y rhoddid cyfleoedd i'r sector hwylio drwy gael eraill i gynnal prosiectau yn yr harbyrau.

Mewn ymateb i gwestiwn, eglurodd y Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig, er y ceisiwyd cefnogi digwyddiadau yn yr Harbwr yn y gorffennol, megis yr Ŵyl Fwyd, y rhybuddiwyd trefnwyr digwyddiadau masnachol o'r fath y byddai'r Cyngor yn codi ffi arnynt eleni oherwydd y costau ynghlwm â chlirio'r safle, ayb. Cytunodd aelodau ei bod yn briodol i

beidio codi ffioedd neu i gynnig ffioedd rhatach i ddechrau, ond y dylai digwyddiadau fod yn gyfrifol am ysgwyddo'r gost ar ôl sefydlu eu hunain.

Holwyd a oedd angen blaengynllunio ar gyfer y lleihad yn y defnydd o gychod hwylio a'r cynnydd yn y defnydd o gychod pŵer? Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig fod hyn yn dueddiad cenedlaethol. Roedd pobl sy'n hwylio yn dueddol o fod yn bobl hŷn, ac roedd yn anodd cael pobl ifanc i mewn i'r maes gan fod yna fwy o bwyslais ar weithgareddau antur erbyn hyn. Roedd y lleihad wedi sefydlogi bellach, ac nid oedd yna dir ym Mhorthmadog ar gyfer y gwasanaethau eraill. Eglurwyd ymhellach bod argymhelliad i gynyddu'r ffi lansio cychod pŵer i £15 yn y flwyddyn ariannol nesaf, ond na fyddai'r tocyn ffi blynyddol yn codi.

Gan gyfeirio at angen y Grid Cenedlaethol i gludo trawsnewidydd mawr drwy Harbwr Porthmadog ar long, er mwyn ei gludo ymlaen i orsaf bŵer Trawsfynydd ar hyd y ffordd, nododd y Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig y bu mewn trafodaethau'n ddiweddar gyda'r Grid Cenedlaethol ac Adran Briffyrdd Llywodraeth Cymru ynglŷn â dulliau amgen o ddod â'r trawsnewidydd i'r lan. Trafodwyd yr opsiwn o ddefnyddio traeth Morfa Bychan i'r diben hwn. Roedd arolygon topograffig a hydrograffeg wedi dangos y byddai angen llanw o 4.5 metr neu uwch, a gan y byddai'r llong yn bellach allan i'r môr na'r disgwyl, byddai angen mwy o drac i gyrraedd ati. Nodwyd hefyd y byddai angen trwydded forol gan Gyfoeth Naturiol Cymru i osod trac ar y traeth a'i godi wedyn, ac y byddai yn ei le am 24 - 48 awr yn unig. Roedd yn ymddangos bod y Grid Cenedlaethol yn cynhesu at y syniad hwn, ond ni ellid cadarnhau beth fyddai'r trefniadau ar hyn o bryd. Gobeithid dod i benderfyniad erbyn yr wythnos ddilynol, gan weithio gyda'r cwmnïau wedyn.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â maint y lori fyddai'n cludo'r trawsnewidydd ar hyd y ffordd, eglurodd y Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n rhaid cau'r ffordd am gyfnod, gan symud unrhyw rwystrau ar ochr y lôn. Hefyd, byddai'n rhaid i'r daith ddigwydd yn ystod golau dydd gan fod rhaid i'r gweithwyr fedru gweld popeth fyddai'n digwydd o'u cwmpas.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â phwy fyddai'n gyfrifol am gost y gwaith, nododd y Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig na ragwelai na fyddai'r cwmni yn ysgwyddo'r gost, a'i fod yn sicr na fyddai'r gost yn disgyn ar Gyngor Gwynedd na'r Clwb Hwylio.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag amseriad y gwaith, eglurodd y Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig ei bod yn debygol y byddai'n digwydd tua diwedd Ebrill / dechrau Mai. Cadarnhaodd y byddai'n trafod y gofynion o safbwynt cau ffyrdd, ac ati, ym Morfa Bychan gyda'r aelod lleol.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd rhoi gwybod i aelodau'r pwyllgor hwn unwaith y bydd dyddiad y gwaith a'r trefniadau wedi'u cadarnhau, gan hefyd ymgysylltu'n llawn â'r trigolion lleol a rhoi ystyriaeth hefyd i anghenion mynediad y gwasanaethau brys. Cadarnhaodd y Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n gwarchod diddordebau pawb fel aelodau lleol ac fel aelodau o'r pwyllgor.

Nodwyd y byddai angen i'r Adran Briffyrdd rybuddio pobl sy'n parcio ar ochr y ffyrdd i symud eu ceir ymlaen llaw. Nodwyd hefyd bod angen cofio am bobl Dwyrain Porthmadog gan fod cau'r ffordd yn mynd i effeithio ar bobl.

Yn wyneb y ffaith y byddai cau ffyrdd, ac ati, yn digwydd ar adeg brysur yn y dref, holwyd a oedd yna gyfle i gymdeithasau'r dref gyflwyno bid am arian o gynllun buddion cymunedol y National Grid? Awgrymwyd y gellid o bosib' gyflwyno cais drwy'r Cyngor Tref. Nododd y Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n codi hyn er mwyn gweld beth fyddai'n bosib'.

Nododd y Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig y bu camsyniad yn y wasg yn ddiweddar, ac er eglurder, cadarnhaodd nad oedd dyfodiad y trawsnewidydd yn gysylltiedig ag unrhyw gynlluniau i sefydlu gorsaf niwclear fechan yn Nhrawsfynydd.

Nododd yr aelod lleol ei fod yn falch o weld yr arwyddion diogelwch ychwanegol wrth ddynesu at y traethau ger Borth y Gest, er y bu rhywfaint o wrthwynebiad iddynt yn lleol. Diolchodd y Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig i'r aelod lleol am ei gefnogaeth gyda'r arwyddion a'r wal fôr. Diolchodd hefyd i aelodau'r pwyllgor am eu cefnogaeth a'u parodrwydd i gydweithio.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn yr adroddiad.**

## 8. CYFARFOD NESAF

Nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 7 Hydref, 2020.

Dechreuodd y cyfarfod am 5.30 y.h. a daeth i ben am 6.35 y.h.

**CADEIRYDD**

# Eitem 7

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog.** |
| **DYDDIAD** | **10 Mawrth 2021** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr** |
| **AWDUR** | **Uwch Swyddog Harbwr** |

**1. Cyflwyniad.**

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Porthmadog.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad byr i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 2021, er mwyn cael adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr. Mae'n drueni y bu'n rhaid canslo cyfarfod mis Hydref 2020, o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws.

**2. Angorfeydd Porthmadog a Chofrestru Cychod**

2.1 Yn 2020/21 roedd ffigyrau ar gyfer 'angorfeydd' yn yr Harbwr fel a ganlyn:-

2.2 Bu 64 o gychod ar angorfeydd blynyddol yn 2020, o'i gymharu â 130 yn 2019. Mae'r ffigwr wedi ei effeithio yn arw gan effaith pandemig Coronafeirws a'r cyfyngiadau cysylltiedig a osodwyd ar unigolion gan Lywodraeth Cymru. Penderfynodd llawer o berchnogion cychod i beidio defnyddio eu cychod yn 2020.

2.3 Mae effaith pandemig Coronafeirws wedi effeithio ar bob harbwr ar draws Gwynedd. Yn gyffredinol, wrth gymharu holl Harbyrau Cyngor Gwynedd, bu gostyngiad yn nifer y cwsmeriaid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

2.4 Cofrestrwyd 831 o Gychod Pŵer yng Ngwynedd yn 2020, o'i gymharu â 894 yn 2019. Cofrestrwyd 16 o gychod yn Harbwr Porthmadog o gymharu â 33 yn 2019.

2.5 Roedd 843 o gychod dŵr personol wedi'u cofrestru yng Ngwynedd yn 2020 o gymharu gyda 827 yn 2019. Mae'r cynnydd yma'n adlewyrchu poblogrwydd a thueddiad presennol yr unigolyn hynny sy'n dymuno mwynhau eu hunain ar y dŵr. Mae busnesau lleol hefyd wedi dangos bod unigolion wedi bod yn prynu ganddynt yn hytrach na theithio dramor ar wyliau.

2.6 Roedd 41 o gychod dŵr personol wedi'u cofrestru yn Harbwr Porthmadog yn 2020 o gymharu â 55 y flwyddyn flaenorol.

2.7 Atodir copïau o'r holl ddata sy'n ymwneud â deiliadaeth a chofrestru.

**3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd**

3.1.1 Mae Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd y porthladdoedd morol. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn nodweddu arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod

harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol. Mae'n angenrheidiol i'r Gwasanaeth dderbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, er mwyn iddo gael ei adolygu'n berthnasol i weithgarwch yr harbwr, cymorthyddion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Porthmadog.

3.1.2 Yn dilyn archwiliad trylwyr o God Diogelwch Morol Porthladdoedd Gwynedd a'r system rheoli diogelwch gysylltiedig gan archwilwyr yr Asiantaeth Morwrol a Gwylwyr y Glannau y llynedd, mae'r Gwasanaeth yn bwriadu anfon llythyr cydymffurfio gyda'r cod at yr Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau. Cwblheir hyn ar ôl cynnal yr archwiliad allanol blynyddol o'r system rheoli diogelwch.

**4. Materion Staffio.**

4.1 Mae staff yr harbwr wedi parhau i weithio o swyddfa'r harbwr drwy gydol pandemig y Coronafeirws i sicrhau diogelwch yr harbwr. Mae cownter y cyhoedd yn y swyddfa wedi'i addasu ac fe osodwyd arwyddion o amgylch yr harbwr i helpu gyda chydymffurfio â Rheoliadau Coronafeirws Llywodraeth Cymru ac i sicrhau bod staff yn aros yn ddiogel yn yr amgylchedd gwaith.

4.2 Mae'r harbwrfeistr cynorthwyol llawn amser wedi parhau i helpu'r harbwrfeistr gyda'i ddyletswyddau dyddiol gan weithio o'r harbwr. Mae'r aelod staff yn parhau ar raglen hyfforddi wedi ei rhaglennu dan law'r Harbwrfeistr a'r Uwch Swyddog Harbwr.

**5. Materion Ariannol.**

5.1 Trafodir crynodeb bras o gyllidebau'r harbwr a'r sefyllfa ariannol gyfredol yn y cyfarfod gan y Prif Swyddog Morwrol. Mae pandemig y Coronafeirws wedi cael effaith fawr ar yr incwm a gafwyd o'r harbwr. Yn unol â chyfarwyddiadau Cabinet Cyngor Gwynedd, bu gostyngiad yn y ffi angorfeydd i ddeiliaid angorfeydd am y tymor 2020-2021.

5.2 Yn ystod y cyfnod yma, bu'n rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr isod;

- Cynnal a Chadw Cymhorthion Mordwyo a Goleufeydd
- Archwilio a chynnal a chadw angorfeydd y Cyngor
- Cynnal a chadw a gweithredu cychod patrôl yr Harbwr
- Cynnal a chadw'r tiroedd a'r celfi stryd
- Offer a chyfarpar gan gynnwys offer diogelwch

5.3 Ffioedd a Thaliadau. **2021/22.** Mae'r Gwasanaeth ar hyn o bryd yn aros am gadarnhad o ran y ffioedd a'r taliadau arfaethedig yn Harbwr Porthmadog ynghyd â ffïoedd lansio Cychod Pŵer a Chychod Personol ar gyfer tymor 2021/22. Rhagwelir y bydd ffioedd yr harbwr yn codi yn ôl chwyddiant o 2%, a bydd y ffioedd lansio a chofrestru yn parhau fel y maent.

**6. Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Mae Harbwrfeistr Porthmadog wedi darparu crynodeb byr o'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng Hydref 2019 a Mawrth 2021, gan gynnwys materion cynnal a chadw. Mae copi o'i adroddiad wedi'i atodi.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Ymgynghorol Harbwr Porthmadog** |
| **DYDDIAD** | **10 Mawrth 2021** |
| **TEITL** | **Adroddiad yr Harbwrfeistr** |
| **AWDUR** | **Harbwrfeistr Porthmadog** |

**H 1 Materion Mordwyo**

1.1 Mae symudiadau llestrau yn yr harbwr a dynesiadau'r sianel yn ystod cyfnod y gaeaf wedi bod yn gyfyngedig iawn ac wedi'i waethygu gan barhad y pandemig Coronafeirws. Yn gyffredinol, mae tywydd y gaeaf a symudiadau cysylltiedig y banciau tywod yng nghwrs y sianel fordwyo wedi achosi i nifer o fwiau adael eu safleoedd neu leoliadau priodol, gan greu angen am waith ar y sianel.

1.2 Yn yr un modd â'r llynedd, ar ôl cymeradwyaeth gan Dŷ'r Drindod, mae bwi Fairway Porthmadog wedi cael ei dynnu o'r dŵr ac wrthi'n cael ei atgyweirio yn Harbwr Pwllheli gan yr Harbwrfeistr. Unwaith y bydd wedi ei atgyweirio, caiff y bwi ei ddychwelyd i'r dŵr cyn gynted ag y bo modd. Mae'r gwaith atgyweirio yn cynnwys cadwyn godi newydd a gefynnau cysylltiedig am gost o £1412.89 i'r Gwasanaeth.

1.3 Bob blwyddyn, mae Tŷ'r Drindod, yr Awdurdod Goleudai Cyffredin, yn cynnal archwiliad annibynnol ar bresenoldeb a swyddogaeth y cymhorthyddion mordwyo a gofnodwyd yn Harbwr Porthmadog. Yn ychwanegol, bob dwy flynedd cynhelir archwiliad pellach gan Dŷ'r Drindod o'r cofnodion cynnal a chadw bwiau a'r asesiadau risg sy'n gysylltiedig gyda diogelwch Mordwyo yn yr harbwr. Cwblhawyd yr archwiliadau yn ystod hydref 2020.

1.4 Ar hyn o bryd, mae tri 'Hysbysiad Lleol i Forwyr' yn weithredol yn Harbwr Porthmadog.

1.4.1 Rhybudd i Forwyr rhif 9/20 - Nid yw cymhorthydd mordwyo Porthladd Rhif 14 yn ei leoliad arferol ar hyn o bryd. Yn sgil symudiadau yn y sianel fordwyo lle roedd y bwi wedi'i leoli, mae'r angen am y bwi wedi cael ei amlygu. Bydd cadarnhad yn cael ei geisio gan Dŷ'r Drindod i beidio â pharhau â phresenoldeb y bwi yn y sianel.

1.4.2 Rhybudd i Forwyr rhif 13/20- Nid yw'r cymhorthydd mordwyo Fairway yn ei leoliad arferol ar hyn o bryd.

1.4.3 Rhybudd i Forwyr rhif 01/2021 - Nid yw cymhorthydd mordwyo Starbord Bwi Rhif 3 yn ei leoliad arferol ar hyn o bryd.

1.4.4 Mae'r Gwasanaeth yn cynghori y bydd y sianel fordwyo yn parhau i gael ei harolygu a bydd yr holl farciau mordwyo yn eu lleoliad ac yn gwbl weithredol cyn gynted ag y bo modd.

1.5 Dymuna'r gwasanaeth atgoffa defnyddwyr yr Harbwr o'r angen i gysylltu â swyddfa'r Harbwr am y wybodaeth fordwyo ddiweddaraf. Cynghorir y dylid cyfyngu mordwyo o fewn y sianel i 1.5 awr ar y naill ochr i'r penllanw, yn enwedig wrth fordwyo cwch sydd â dyfnder o fwy nag 1.5 medr.

**H 2 Materion Gweithredol**

2.1 Cwblhawyd cludiant trawsnewidydd mawr ar gyfer Gorsaf Bŵer Trawsfynydd ar 16 Medi 2020, gyda'r llong 'Terra Marique' yn glanio ar draeth Morfa Bychan i ollwng y cargo. Derbyniodd staff adborth cadarnhaol a gwerthfawrogiad am gynorthwyo gan y Grid Cenedlaethol a'r contractwr, Robert Wynn and Sons, ar ôl gwneud gwaith estynedig a gwaith paratoi i gwblhau'r symudiad.

2.2 Wrth ddefnyddio traeth Morfa Bychan i dderbyn y cargo, ni achoswyd unrhyw darfu ar weithrediad harbwr Porthmadog ac ni amharwyd ar allu unrhyw lestr i ddefnyddio cyfleusterau'r harbwr.

2.3 I raddau helaeth yn 2020, effeithiwyd ar weithrediadau'r harbwr gan y pandemig Coronafeirws a'r cyfyngiadau cysylltiedig a roddwyd yn eu lle gan Lywodraeth Cymru. Arweiniodd hyn at leihad yn nifer y llestrau oedd ar angorfeydd yn yr harbwr ac yn nifer y llestrau oedd yn ymweld â'r harbwr o harbyrau pell ac agos.

2.4 Fel yr adroddwyd eisoes, mae'r cynlluniau i waredu'r peilonau trydan yn aber Dwyryd yn parhau ar y gweill fel rhan o brosiect Darpariaeth Effaith Weledol (VIP) Eryri. Disgwylir i'r gwaith i waredu'r peilonau a gosod ceblau tanddaearol barhau hyd 2026.

## H 3 Cynnal a Chadw

3.1 Mae'r Gwasanaeth wedi cysylltu â chontractwr angorfeydd lleol i wneud gwaith archwilio tanddwr o angorfeydd yr harbwr. Rhagwelir y bydd yr archwiliad yn cael ei wneud yn fuan. Yna, bydd unrhyw waith a nodir o ganlyniad i'r archwiliad, megis cadwyni wedi gwisgo neu wedi'u difrodi, yn cael ei wneud fel rhan o'r gwaith o baratoi ar gyfer y tymor sydd i ddod.

3.2 Mae staff yr harbwr wedi bod yn gweithio ar atgyweirio nifer o farciau mordwyo dros gyfnod y gaeaf. Bydd y marciau hyn yn cael eu gosod yn eu lle pan a phryd y bydd eu hangen.

3.3 Mae cwch y 'Dwyfor' wedi cael ei thynnu o'r dŵr yn harbwr Pwllheli er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw blynyddol arni ac er mwyn i Arolygydd cymeradwy gan yr Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau gynnal arolwg pum mlynedd arni. Pan fydd yn dychwelyd i harbwr Porthmadog, bydd offer codi'r cwch yn cael ei brofi cyn y bydd yn dychwelyd i wneud dyletswyddau gweithredol yn barod ar gyfer y tymor prysur sydd i ddod.

3.4 Mae gwaith hefyd yn parhau ar hyn o bryd i gynnal a chadw cwch patrôl Powercat yr harbwr, gan gynnwys gwasanaethu'r injan gan beiriannwr morwrol lleol.

3.3 Mae'r 'Porthmadog', y cwch tendr bychan a ddefnyddir gan staff yr harbwr, wedi cael ei chynnal a'i chadw, yn cynnwys ei pheintio. Bellach, mae wedi dychwelyd i wneud dyletswyddau gweithredol.

3.6 O amgylch ardal yr harbwr, mae gwaith wedi parhau i baentio rheiliau'r harbwr sy'n rhedeg ar hyd wal y cei drwy ymestyn y tu hwnt i lithrfa'r harbwr hyd at bwynt ger safle Clwb Hwylio Madog. Yn ogystal, mae llaid meddal wedi cael ei glirio oddi slipffordd yr harbwr yn y mannau gwaethaf ac mae wedi cael ei lanhau gyda *power washer*.

3.7 Dros gyfnod y gaeaf, mae staff wedi cynnal a chadw nifer o feinciau a seddi o amgylch yr harbwr, gyda gwaith pellach i'w gwblhau maes o law. Mae'r gwasanaeth yn dal i

dderbyn ceisiadau i leoli meinciau o gwmpas yr harbwr, gyda llefydd cyfyngedig ar gael yn unig.

3.8 Yn ystod tywydd garw, mae'r harbwrfeistr wedi gallu cynnal gweithdrefnau gweinyddol gan gynnwys prosesau asesu risg yn ymwneud â pheryglon a adnabuwyd o amgylch yr harbwr.

**H 4 Materion Eraill**

4.1 Borth-Y-Gest. Dymuna'r gwasanaeth atgoffa defnyddwyr yr harbwr o'r angen i fod â'r giatiau metel ar ben y slipffordd ar gau yn ystod cyfnod y gaeaf fel nad oes dŵr yn golchi'n ddiangen i ardal y maes parcio. Ar sawl achlysur, mae'r staff wedi cyrraedd yno a chanfod bod y giatiau ar agor.

4.2 Parhau mae bwriad y Gwasanaeth i dacluso'r ardal lastwelltog lle mae nifer o gychod yn cael eu cadw ar hyn o bryd, rhai ohonynt nad ydynt yn addas i'w defnyddio ar y môr bellach. Mae'r Gwasanaeth yn parhau i fod yn ymwybodol y bydd mesur o'r fath yn amhoblogaidd gyda nifer o breswylwyr

**H5 Digwyddiadau**

5.1 Mae'n drueni y bu'n rhaid canslo nifer o ddigwyddiadau a gynlluniawyd i'w cynnal yn harbwr Porthmadog yn ystod 2020 o ganlyniad i'r pandemig Coronafeirws.

5.2 Mae'n ansicr p'un a fydd digwyddiadau arfaethedig angen cael eu canslo eto eleni. O ganlyniad, hoffai'r Gwasanaeth atgoffa aelodau ei bod yn hanfodol cydymffurfio gyda'r Rheoliadau Coronafeirws sy'n bodoli ar y pryd a'r cyngor a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru gan gydgysylltu gyda Awdurdod yr Harbwr ar y cyfle cyntaf posib i gael caniatâd i gynnal y digwyddiad.

# ***Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit***

## ***Cyfanswm wedi Cofrestru Badau Dwr Personol - Total number of Personal Watercraft Registrations***

| Blwyddyn Year | Harbwr Aberdyfi Harbour | Harbwr Abermaw Harbour | Harbwr Porthmadog Harbour | Harbwr Pwllheli/ Hafan | Morfa Bychan | Traethau Gwynedd Beaches | Swyddfa Office | Cyfanswm Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2015 | 23 Aberdyfi<br>1 Tywyn | 64 Abermaw a Caerddaniel | 30 | 42 Total Boat Care<br>43 Hafan | 157 | 76 Abersoch<br>1 Machroes<br>9 Morfa Nefyn<br>6 Nefyn<br>1 Aberdaron | 243 | 696 |
| 2016 | 27 Aberdyfi<br>4 Tywyn | 69 Abermaw | 35 | 49 Total Boat Care<br>56 Hafan | 183 | 101 Abersoch<br>20 Machroes<br>4 Morfa Nefyn<br>10 Nefyn<br>2 Aberdaron | 174 | 734 |
| 2017 | 28 Aberdyfi<br>6 Tywyn | 68 Abermaw | 45 | 55 Total Boat Care<br>65 Hafan | 165 | 122 Abersoch<br>10 Machroes<br>12 Morfa Nefyn<br>10 Nefyn<br>1 Aberdaron | 151 | 738 |
| 2018 | 50 Aberdyfi<br>3 Tywyn | 74 Abermaw | 52 | 73 Total Boat Care<br>105 Hafan | 200 | 188 Abersoch<br>9 Machroes<br>3 Morfa Nefyn<br>5 Nefyn<br>1 Aberdaron | 160 | 923 |
| 2019 | 32 Aberdyfi<br>5 Tywyn | 78 Abermaw | 55 | 43 Total Boat Care<br>116 Hafan | 184 | 137 Abersoch<br>5 Machroes<br>14 Morfa Nefyn<br>5 Nefyn<br>0 Aberdaron | 153 | 827 |
| 2020 | 30 Aberdyfi | 68 Abermaw | 41 | 163 Hafan | 178 | 236 Abersoch<br>23 Machroes<br>11 Nefyn | 93 | 843 |


# ***Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit***
# ***Cyfanswm wedi Cofrestru Cychod Pŵer - Total number of Powerboat Registrations***


| Blwyddyn<br>Year | Harbwr<br>Aberdyfi<br>Harbour | Harbwr<br>Abermaw<br>Harbour | Harbwr<br>Porthmadog<br>Harbour | Harbwr<br>Pwllheli<br>Harbour | Morfa<br>Bychan | Traethau<br>Gwynedd<br>Beaches | Swyddfa<br>Office | Cyfanswm<br>Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2015 | 52 Aberdyfi<br>3 Tywyn | 71 Abermaw a<br>Caerddaniel | 30 | 99 Total<br>Boat Care<br>5 Harbwr<br>104 Hafan | 14 | 92 Abersoch<br>4 Machroes<br>23 Morfa Nefyn<br>13 Nefyn<br>16 Trefor<br>12 Aberdarom | 449 | 987 |
| 2016 | 58 Aberdyfi<br>7 Tywyn | 81 Abermaw | 37 | 115 Total<br>Boat Care<br>4 Harbwr<br>119 Hafan | 31 | 101 Abersoch<br>71 Machroes<br>27 Morfa Nefyn<br>14 Nefyn<br>10 Aberdaron | 336 | 1011 |
| 2017 | 53 Aberdyfi<br>9 Tywyn | 66 Abermaw | 37 | 103 Total<br>Boat Care<br>3 Harbwr<br>117 Hafan | 29 | 125 Abersoch<br>40 Machroes<br>48 Morfa Nefyn<br>19 Nefyn<br>11 Aberdaron<br>6 Trefor | 289 | 955 |
| 2018 | 53 Aberdyfi<br>14 Tywyn | 75 Abermaw | 38 | 112 Total<br>Boat Care<br>177 Hafan | 34 | 161 Abersoch<br>31 Machroes<br>52 Morfa Nefyn<br>15 Nefyn<br>5 Aberdaron | 290 | 1057 |
| 2019 | 41 Aberdyfi a<br>16 Tywyn | 66 Abermaw | 33 | 97 Total<br>Boat Care<br>172 Hafan | 30 | 89 Abersoch<br>20 Machroes<br>60 Morfa Nefyn<br>14 Nefyn<br>12 Aberdaron | 244 | 894 |
| 2020 | 51 Aberdyfi | 42 Abermaw | 16 | 281 Hafan | 24 | 180 Abersoch<br>29 Machroes<br>57 Nefyn | 151 | 831 |


# HARBWR PORTHMADOG HARBOUR


## Cymhariaeth o Ystadegau Cychod
Comparison of Boat Statistics


| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer o Gychod /** Number of Boats | 140 | 129 | 135 | 131 | 130 | 64 |
| **Cyfanswm Hydoedd** / Total Overall Length | 1150.60 | 1055.12 | 1098.58 | 1055.13 | 1030.04 | ***511.93*** |
| **Cyfartaledd Hyd** / Average Length | 8.22 | 8.18 | 8.14 | 8.05 | 7.92 | ***8*** |
| **Cyfanswm Dyfnder** / Total Draught | 137.69 | 127.50 | 133.18 | 131.01 | 128.80 | ***63.59*** |
| **Cyfartaledd Dyfnder** / Average Draught | 0.98 | 0.99 | 0.99 | 1.00 | 0.99 | ***0.99*** |







## Uned Morwrol / Maritime Unit

*Ystadegau angorfeydd – Mooring statistics*

| ***Harbwr*** ***Harbour*** | ***Nifer o Angorfeydd*** ***Available no of moorings*** | ***Preswylydd*** ***Occupancy*** | ***Preswyl yng Ngwynedd*** ***Residing in Gwynedd*** | ***Eraill*** *Others* |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| *Aberdyfi 2015* | *120* | *77 (64.2%)* | *35 (45.5%)* | *42 (54.5%)* |
| *Aberdyfi 2016* | *120* | *79 (65.8%)* | *36 (45.6%)* | *43 (54.4%)* |
| *Aberdyfi 2017* | *120* | *78 (65.0%)* | *36 (46.2%)* | *42 (53.8%)* |
| *Aberdyfi 2018* | *120* | *74 (61.7%)* | *37 (50.0%)* | *37 (50.0%)* |
| *Aberdyfi 2019* | *120* | *68 (56.7%)* | *32 (47.1%)* | *36 (52.9%)* |
| ***Aberdyfi 2020*** | ***120*** | ***47 (39.2%)*** | ***23 (48.9%)*** | ***24 (51.1%)*** |
| | | | | |
| *Abermaw 2015* | *140* | *93 (66.4%)* | *63 (67.7%)* | *30 (32.3%)* |
| *Abermaw 2016* | *140* | *88 (62.9%)* | *60 (68.2%)* | *28 (31.8%)* |
| *Abermaw 2017* | *140* | *86 (61.4%)* | *59 (68.6%)* | *27 (31.4%)* |
| *Abermaw 2018* | *140* | *69 (49.3%)* | *44 (63.8%)* | *25 (36.2%)* |
| *Abermaw 2019* | *140* | *70 (50.0%)* | *45 (64.3%)* | *25 (35.7%)* |
| ***Abermaw 2020*** | ***140*** | ***31 (22.1%)*** | ***24 (77.4%)*** | ***7 (22.6%)*** |
| | | | | |
| *Porthmadog 2015* | *238* | *140 (58.8%)* | *44 (31.4%)* | *96 (68.6%)* |
| *Porthmadog 2016* | *238* | *129 (54.2%)* | *47 (36.4%)* | *82 (63.6%)* |
| *Porthmadog 2017* | *238* | *135 (56.7%)* | *54 (40.0%)* | *81 (60.0%)* |
| *Porthmadog 2018* | *238* | *131 (55.0%)* | *54 (41.2%)* | *77 (58.8%)* |
| *Porthmadog 2019* | *238* | *130 (54.6%)* | *60 (46.2%)* | *70 (53.8%)* |
| ***Porthmadog 2020*** | ***238*** | ***64 (26.9%)*** | ***30 (46.9%)*** | ***34 (53.1%)*** |
| | | | | |
| *Pwllheli 2015* | *114* | *87 (76.3%)* | *57 (65.5%)* | *30 (34.5%)* |
| *Pwllheli 2016* | *114* | *58 (50.9%)* | *27 (46.6%)* | *31 (53.4%)* |
| *Pwllheli 2017* | *81* | *60 (74.1%)* | *28 (46.7%)* | *32 (53.3%)* |
| *Pwllheli 2018* | *81* | *55 (67.9%)* | *27 (49.1%)* | *28 (50.9%)* |
| *Pwllheli 2019* | *81* | *58 (71.6%)* | *40 (69.0%)* | *18 (31.0%)* |
| ***Pwllheli 2020*** | ***81*** | | | |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *Hafan 2014* | *409* | *293 (71.6%)* | *51 (17.4%)* | *242 (82.6%)* |
| *Hafan 2015* | *409* | *292 (71.4%)* | *56 (19.2%)* | *236 (80.8%)* |
| *Hafan 2016* | *409* | *287 (70.1%)* | *55 (19.2%)* | *232 (80.8%)* |
| *Hafan 2017* | *409* | *306 (74.8%)* | *57 (18.6%)* | *249 (81.4%)* |
| *Hafan 2018* | *409* | *292 (71.4%)* | *56 (19.2%)* | *236 (80.8%)* |
| *Hafan 2019* | *409* | *299 (73.1%)* | *57 (19.1%)* | *242 (80.9%)* |
| ***Hafan 2020*** | ***409*** | | | |
| | | | | |
| *Dco Fictoria 2014* | *100* | *100 (100.0%)* | *25 (25.0%)* | *75 (75.0%)* |
| *Doc Fictoria 2015* | *100* | *100 (100.0%)* | *21 (21.0%)* | *79 (79.0%)* |
| *Doc Fictoria 2016* | *100* | *92 (92.0%)* | *19 (20.7%)* | *73 (79.3%)* |
| *Doc Fictoria 2017* | *100* | *92 (92.0%)* | *16 (17.4%)* | *76 (82.6%)* |
| *Doc Fictoria 2018* | *100* | *90 (90.0%)* | *21 (23.3%)* | *69 (76.7%)* |
| *Doc Fictoria 2019* | *100* | *94 (94.0%)* | *20 (21.3%)* | *74 (78.7%)* |
| ***Doc Fictoria 2020*** | ***100*** | | | |
| | | | | |


Harbwr Porthmadog Harbour
Mae'r sianel yn newid ei chwrs yn rheolaidd, cynghorir bod morwyr yn cysylltu efo'r Harbwrfeistr ym Mhorthmadog am y wybodaeth ddiweddaraf
The channel changes it's course on a regular basis, you are advised to contact the Harbourmaster at Porthmadog for the latest information on changes to buoyage
01766 512927 / 07879 433 147, VHF 12/16
Borth y Gest
Cei Balast
17 Fl G 6s
15 Fl G2 5s
Bae Samson
12 Fl R 4s
Cwt powdr
Powder house
13 Fl G 2s
Traeth y Graig Ddu
Black Rock Sands
Banc y Gogledd
North bank
10 FL R 2.5s
LF W 10s
N
2 Q Fl R
5 Fl G2 5s
9 Fl G 4 15s
4 Fl R(2) 5s
Trwyn Harlech Point
1Q Fl G
3 Fl G 3s
Rhybydd / Caution
Nid yw gael ei ddefnyddio ar gyfer mordwyo
Not to be used for navigation
Cynghorir morwyr i beidio mordwyo dros y draethell oni bai fod o fewn 2 awr pob ochor i'r pen llanw, cychod gyda draft fwy na 1.5 i fod fewn 1.5 awr bob ochor i'r pen llanw.
The channel should not be used at any time other than 2hrs either side of high water,vessels with a draft greater than 1.5m should only use the channel 1.5 hrs either side of high water
December 2020